Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

# Cymeradwyo a gweithredu Uned Besgi Gymeradwy i ganiatáu prynu gwartheg dan gyfyngiadau TB o sawl ffynhonnell i'w magu neu i'w pesgi (heb bori) yng Nghymru: Nodiadau cyfarwyddyd

## Hydref 2023

## Cynnwys


Cefndir a diben ....1

Ffynhonnell y gwartheg ....1

Symud gwartheg o'r uned besgi gymeradwy ....2

Amodau ....3

Gwneud cais ac archwilio ....5

Profion TB ar unedau pesgi cymeradwy ....6

Camau gweithredu os bydd achos o TB mewn uned besgi gymeradwy ....6

Camau gweithredu ar y fferm wreiddiol pan fydd anifeiliaid wedi cael eu hanfon i AFU ....7

Safle gwreiddiol yng nghymru yn unig ....7

Adennill statws heb TB swyddogol (OTF) (codi cyfyngiadau TB02 ar yr AFU) ....7

# Cefndir a diben

1. Cyflwynwyd Unedau Pesgi Cymeradwy (AFUs) er mwyn cynnig man i fagu a/neu besgi gwartheg sydd wedi profi'n glir o ddaliadau dan gyfyngiadau TB nad oes ganddynt gyfleusterau o'r fath.
2. Dim ond ar gyfer gwartheg y caiff AFUs eu cymeradwyo. Nid ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer cynhyrchu llaeth nac ar gyfer anifeiliaid cyflo ac ni chaniateir bridio yn yr unedau hyn. Rhaid rhoi cynlluniau ysgrifenedig wrth gefn ar waith ar gyfer unrhyw loi a gaiff eu geni'n annisgwyl yn yr uned fel rhan o'r gymeradwyaeth.
3. Gall AFUs gaffael gwartheg o unrhyw ardal yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, o safleoedd dan gyfyngiadau TB, a gallant hefyd dderbyn gwartheg nad ydynt dan gyfyngiadau TB a all symud heb gael y prawf cyn symud gofynnol, sydd wedi'u heithrio rhag cael prawf cyn symud neu sydd wedi cael prawf cyn symud.
4. Lluniwyd yr amodau ar gyfer cymeradwyo a gweithredu er mwyn sicrhau diogelwch rhag clefyd, gan ystyried y canlynol:

- rhaid i'r uned fod dan gyfyngiadau TB
- rhaid i'r gwartheg gael eu cadw dan do drwy'r amser
- bydd gwartheg o sawl ffynhonnell wahanol (ond o safleoedd dan gyfyngiadau TB yn bennaf) yn bresennol
- mae'n rhaid bod gwartheg a ddaeth yn wreiddiol o safleoedd dan gyfyngiadau TB (nid AFU) wedi cael eu profi yn ystod y 90 diwrnod blaenorol ac wedi cael canlyniadau negatif, oni bai eu bod o dan 42 diwrnod oed pan gawsant eu symud
- ni fydd angen i'r gwartheg a ddaeth yn wreiddiol o AFU gael prawf cyn symud clir ar gyfer symudiadau i AFU/AFUE, naill ai'n uniongyrchol neu drwy Arwerthiant Arbennig TB, oni bai bod AFU sy'n symud gwartheg i'r safleoedd pen y daith hyn yn peidio â chydymffurfio ag amodau ei chymeradwyaeth yn AFU, neu oni bai bod AFU sy'n symud gwartheg ymlaen o'r safleoedd pen y daith hyn yn peidio â chydymffurfio ag amodau ei chymeradwyaeth yn AFU
- bydd trosiant anifeiliaid yn uchel
- rhaid i uned gydymffurfio ag amodau bioddiogelwch llym bob amser
- rhaid bod gan yr uned Rif Daliad (CPH) unigol
- ni chaniateir i'r uned fod â CPH dros dro (tCPH) na Chysylltiad Tir Dros Dro (TLA) ac ni chaiff tir na safle sy'n gofrestredig yn erbyn CPH AFU fod yn gysylltiedig dros dro drwy TLA na tCPH â CPH arall
- yng Nghymru, ni ellir cymeradwyo AFU yn yr Ardaloedd TB Isel neu Ganolradd.

# Ffynhonnell y gwartheg

1. Rhaid i bob achos o symud gwartheg i'r AFU fod yn drwyddedig ac yn destun asesiad risg gan APHA. Caiff y rhai yr ystyrir eu bod yn peri risg uchel eu gwrthod. Gellir symud gwartheg i'r AFU yng Nghymru:

   - o safle sydd dan gyfyngiadau TB (nid AFU) yn uniongyrchol, o dan awdurdod trwydded symud (TB16/TB16e/TB16e(Cymraeg)) neu drwy arwerthiant arbennig TB cymeradwy (“marchnad oren”) yng Nghymru a Lloegr, dan drwydded (TB16b/TB16e/TB16e (Cymraeg)). Rhaid i symudiadau gydymffurfio ag amodau'r

drwydded hon a rhaid bod gwartheg wedi cael prawf twbercwlin negatif ymhen 90 diwrnod o symud (ac eithrio lloi o dan 42 diwrnod oed)
- o AFU/AFUE arall yng Nghymru neu yn Lloegr, ar yr amod mai hwn yw'r symudiad cyntaf o AFU i AFU i'r anifeiliaid sy'n cael eu symud, yn uniongyrchol dan drwydded (TB16/TB16e/TB16e (Cymraeg)) neu drwy arwerthiant arbennig TB cymeradwy (marchnad oren) dan drwydded (TB16b/TB16e/TB16e (Cymraeg))
- o fuchesi nad ydynt dan gyfyngiadau TB (dan drwydded TB15a):
  - heb yr angen am brawf cyn symud
  - os ydynt wedi'u heithrio rhag profion cyn symud
  - sydd wedi cael prawf cyn symud

2. Os bydd achos o TB ar fferm wreiddiol y gwartheg yn yr AFU, ni chaiff y gwartheg eu holrhain a /neu ni roddir gwybod i'r AFU amdanynt. Nid oes angen i wartheg a fewnforiwyd sy'n mynd i mewn i AFU gael prawf ar ôl mewnforio. Mae cynnal profion ar bob anifail 180 diwrnod oed a hŷn bob chwe mis yn parhau i ddarparu gwyliadwriaeth reolaidd mewn AFUs, ond yn y pen draw bydd angen i weithredwyr AFU dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw ostyngiad yng ngwerth unrhyw garcas yn dilyn lladd am fod briwiau TB wedi cael eu datgelu yn y gwartheg hynny.
3. Ni all AFU dderbyn adweithyddion nac adweithyddion amhendant i'r prawf croen twbercwlin, anifeiliaid sydd wedi cael canlyniadau positif i brawf Interfferon-gamma/prawf IDEXX na chysylltiadau uniongyrchol. Rhaid mynd â phob un o'r rhain yn uniongyrchol i gael eu lladd o'r fuches dan gyfyngiadau TB. Ni all AFU dderbyn unrhyw anifeiliaid sy'n aros am ganlyniadau prawf croen twbercwlin, na phrawf Interfferon-gamma na phrawf IDEXX.
4. Gall AFU dderbyn gwartheg yn uniongyrchol o AFU/AFUE, neu drwy Arwerthiant Arbennig TB, sydd heb gael prawf cyn symud clir, ar yr amod bod yr AFU wreiddiol ac AFU pen y daith yn cydymffurfio ag amodau eu cymeradwyaeth yn AFU. Os nad yw'r AFU yn cydymffurfio ag amodau ei chymeradwyaeth yn AFU, bydd angen i'r holl wartheg cymwys (42 diwrnod a hŷn) gael prawf cyn symud clir o fewn 90 diwrnod o unrhyw safle pen y daith.

# Symud gwartheg o'r uned besgi gymeradwy

Gall gwartheg adael yr AFU yng Nghymru:

1. I gael eu lladd:
   - o dan drwydded gyffredinol (TB24g) os bwriedir iddynt fynd yn uniongyrchol i gael eu lladd
   - drwy Grynhoad Lladd TB cymeradwy ar gyfer gwartheg dan gyfyngiadau TB o dan drwydded (TB24b)

2. Yn uniongyrchol i AFU arall yng Nghymru, AFU/AFU(E) yn Lloegr o dan awdurdod trwydded symud (TB16/TB16e/TB16e(Cymraeg)). Dim ond unwaith y caiff gwartheg symud o AFU yng Nghymru i AFU arall yng Nghymru.

3. I Arwerthiant Arbennig TB Cymeradwy (marchnad oren) yng Nghymru neu Loegr dan awdurdod trwydded symud (TB16b/TB16b(Welsh /TB16e/TB16e(Cymraeg)). Yn dilyn Arwerthiant Arbennig TB, gellir symud gwartheg dan drwydded yn uniongyrchol i gael eu

lladd neu i AFU arall yng Nghymru (ar yr amod mai hwn yw'r tro cyntaf iddynt symud o AFU i AFU) neu i AFU/AFUE yn Lloegr.

4. Nid oes angen prawf cyn symud clir ar wartheg sy'n symud o AFU i AFU/AFUE yng Nghymru/Lloegr, nac i Arwerthiant Arbennig TB, oni chafodd yr AFU wybod gan APHA nad yw'n cydymffurfio ag amodau'r gymeradwyaeth (gweler profion isod).

# Amodau

Nod yr amodau hyn yw sicrhau bod yr AFU yn parhau i fod yn uned hunangynhwysol sy'n amlwg wedi'i gwahanu oddi wrth fuchesi eraill. Gall Swyddog Arweiniol Milfeddygol Cymru ystyried cymeradwyo unedau magu a phesgi ar gyfer gwartheg o fuchesi dan gyfyngiadau yn bennaf os yw'r safle arfaethedig yn cydymffurfio â'r amodau a restrir isod:

- mae'r uned mewn buarth un pwrpas sy'n cynnwys adeiladau gwartheg ar safle â statws Heb TB Swyddogol (OFT) neu
- mae'r uned mewn buarth un pwrpas sy'n cynnwys adeiladau gwartheg ar safle sydd wedi colli statws OFT, yn amodol ar asesiad risg boddhaol gan filfeddyg ac os yw'n cydymffurfio â'r amodau canlynol:
    - mae'n uned besgi ddwys sydd â digon o adeiladau yn yr uned arfaethedig i gadw'r **holl** wartheg ar safle'r achos o TB
    - mae'r uned arfaethedig yn bodloni'r holl amodau cymeradwyo eraill
    - mae'r amodau ar gyfer adennill statws OTF gweddill y safle (y tir ac unrhyw adeiladau gwartheg nad ydynt yn rhan o'r AFU, e.e. mewn lleoliad cwbl ar wahân o dan yr un CPH) yn cydymffurfio â'r amodau ar gyfer diboblogi'n llwyr
- rhaid i'r uned fodloni'r meini prawf gofynnol i fod yn gymwys i gael CPH ar wahân
- rhaid i ffiniau'r uned fod wedi'u diffinio'n dda a dylent fod yn amlwg, yn effeithiol ac yn ddiogel. Dylai fod adeiladau, trefniadau rheoli, offer (gweler isod), peiriannau (gweler isod) a buarthau ac ati ar wahân. Dylai'r ffiniau fod yn ddiogel rhag da byw i sicrhau bwlch o 3 metr neu rywbeth sy'n cyflawni'r un diben e.e. byddai wal solet adeilad heb agoriadau na chyfle i ddŵr ffo ollwng o'r uned yn rhan dderbyniol o ffin
- rhaid sicrhau nad oes cyfle i dda byw grwydro ymaith na dod i gysylltiad trwyn wrth drwyn â da byw eraill
- ni ellir cyd-leoli unedau lluosog, h.y. lle mae gan bob uned CPH ar wahân, o fewn yr un ardal fuarth, ond gall adeiladau lluosog o fewn yr un ardal fuarth fod yn dderbyniol fel un uned unigol
- rhaid i unedau gydymffurfio â bioddiogelwch llym gyda phrotocolau ar waith ar gyfer symudiadau personél, offer a cherbydau sy'n cyrraedd ac yn gadael yr uned. Rhaid cyfyngu symudiadau o'r fath i'r rhai sy'n hanfodol er mwyn cynnal yr uned
- os bwriedir i bersonél, offer neu gerbydau gael eu defnyddio gyda gwartheg eraill y tu allan i'r uned a/neu ddod i gysylltiad â nhw, dylai'r protocol bioddiogelwch gyfeirio at hyn er mwyn sicrhau na fydd cysylltiad uniongyrchol nac anuniongyrchol ag anifeiliaid a allai gael TB y tu allan i'r uned
- rhaid bod protocolau ar waith hefyd ar gyfer draenio elifion a golchion o'r uned. Rhaid sicrhau nad yw elifion na golchion yn draenio o'r uned i ardaloedd y mae da byw a allai ddal TB yn cael mynediad iddynt
- rhaid i brotocolau gynnwys mynediad at borthiant
- gall gwartheg ond symud i'r uned o dan drwydded a gyflwynir gan APHA. Ni ddylai unrhyw wartheg eraill gael mynediad at yr uned ar unrhyw adeg

- rhaid sicrhau bod digon o le yn yr adeiladau er mwyn galluogi'r gwartheg i dyfu a rhaid nodi'r uchafswm niferoedd yn yr amodau cymeradwyo. Cyfrifoldeb perchennog/gweithredwr yr uned yw sicrhau na thanseilir lles y gwartheg drwy orlenwi. Dylai nifer y gwartheg y gall uned ei dal gael ei gynnwys ar y gymeradwyaeth ac mae'n rhaid bod y perchennog/gweithredwr wedi ystyried hapddigwyddiadau er mwyn osgoi amodau lles andwyol posibl a bydd yn cofnodi ac yn cytuno ar hyn
- rhaid i unedau fod yn ddiogel rhag bywyd gwyllt. Rhaid bod yr adeiladau lle mae'r gwartheg yn cael eu cadw naill ai'n gwbl ddiogel rhag bywyd gwyllt neu rhaid bod y ffin â'r uned yn gwbl ddiogel rhag bywyd gwyllt. Gellir cyflawni hyn drwy ddefnyddio ffensys trydan fel ffin o amgylch yr adeilad(au), er enghraifft
- yn y cyd-destun hwn mae bywyd gwyllt yn cyfeirio at rywogaethau o famaliaid gwyllt sy'n gallu gweithredu fel cronfeydd o *Mycobacterium bovis* (e.e. moch daear ac, o bosibl, geirw gwyllt) ac mae amodau addas yn cynnwys y canlynol:
    - ni ddylai ochrau'r adeilad fod yn agored; dylent fod o adeiladwaith llyfn a chadarn (h.y. fel na all bywyd gwyllt afael ynddynt) a dylent fod o leiaf 1.5 metr o uchder
    - dylai'r drysau fod o adeiladwaith llyfn a chadarn (h.y. fel na all bywyd gwyllt afael ynddynt) a dylent fod o leiaf 1.5 metr o uchder (gellir ychwanegu dalenni metel solet at glwyd â phum bar)
    - ni ddylai bylchau wrth ochrau drysau a waliau ac oddi tanynt fod yn fwy na 7.5cm ac ni ddylai bod modd eu gwneud yn fwy drwy gloddio neu gnoi
    - lle bo elifion neu ddŵr gwastraff yn draenio i mewn i ffos gerrig, ni ddylai da byw na bywyd gwyllt allu mynd i mewn iddi a gellid defnyddio ffensys trydan neu ffensys addas eraill i atal hynny rhag digwydd. Bydd hyn yn atal yr amgylchedd a'r bywyd gwyllt rhag cael eu halogi
    - lle y bo'n briodol, gellir defnyddio ffensys trydan ar ffiniau'r uned er mwyn sicrhau na all bywyd gwyllt fynd i mewn iddi (yr arfer orau fyddai cynnwys storfeydd porthiant ac wyneb silwair ac ati hefyd er mwyn osgoi ychwanegu at y risg o glefyd gan fywyd gwyllt lleol). Lle y caiff ffensys trydan eu defnyddio, mae'n bwysig nodi y dylai'r gwifrau fod wedi'u gosod 10, 15, 20 a 30cm uwchlaw'r ddaear
- dylai'r offer a'r peiriannau a ddefnyddir yn yr uned fod wedi'u neilltuo i'r uned hon yn unig oni bai:
    - bod yr halogiad ar lefel lle y bo'n realistig disgwyl gallu ei lanhau yn foddhaol gan ddefnyddio chwipolchwr a diheintydd. Caiff halogiad ei asesu yn unol â'r risg. Er enghraifft, gall wagen borthi a rennir nad yw'n mynd i ardaloedd gwartheg nac yn dod o fewn cyrraedd gwartheg fod yn dderbyniol, ond ni fydd crafwr tail a rennir yn dderbyniol
    - dylid delio ag unrhyw halogiad ar unwaith ac yn sicr cyn y bydd cyswllt ag unrhyw dda byw eraill a allai gael TB
    - bydd protocol bioddiogelwch llawn ac effeithiol ar waith ar gyfer yr holl offer a pheiriannau a rennir
- dylai fod personél penodol ar gyfer yr uned, neu, ar y lleiaf, rhaid gwisgo dillad uchaf un pwrpas neu ddillad ac esgidiau diddos y gellir eu diheintio a rhoi protocol ar waith i ddangos sut y caiff y risg o ledaenu haint ei lleihau
- rhaid bod cyfleusterau profi pwrpasol digonol; dylai'r rhain gynnwys o leiaf wasgfa, rhedfa ddigon hir, buarth casglu a man profi dan do
- rhaid bod system ar waith i gasglu dŵr ffo ac elifion o'r uned sy'n atal cyrsiau dŵr rhag cael eu halogi
- rhaid i gyfleusterau fod ar gael i storio tail, hen sarn a slyri. Ar ôl eu tynnu ymaith, dylai tail a slyri gael eu trin a'u storio fel y nodir ar gefn yr Hysbysiad yn ei Gwneud yn

Ofynnol i Lanhau a Diheintio ([BT05](BT05)), fel bod modd anactifadu *Mycobacterium bovis*. Wedyn, rhaid taenu'r slyri a'r tail (i ffwrdd o'r uned) ar dir âr neu, fel arall, ar dir pori na fydd da byw a allai gael TB yn mynd arno am o leiaf 60 diwrnod. Dylai slyri gael ei daenu drwy ei chwistrellu, neu drwy ddull arall sy'n lleihau'r risg o ledaenu erosol. Rhaid cadw cofnodion o bob lleoliad a dyddiad taenu o'r fath

- rhaid rhoi gwybod am achosion o symud gwartheg i'r uned ac oddi yno o fewn yr amserlenni a ragnodir
- unrhyw amodau eraill y bydd Swyddog Arweiniol Milfeddygol Cymru yn tybio eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol.

# Gwneud cais ac archwilio

1. Dylai unrhyw un sydd am gael cymeradwyaeth ar gyfer AFU gysylltu â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a fydd yn rhoi copi o'r ffurflen gais iddo. Mae'r ffurflen gais hefyd ar gael yn GOV.UK: Unedau pesgi cymeradwy ar gyfer gwartheg: gwneud cais a safleoedd cymeradwy - GOV.UK (www.gov.uk)
2. Pan ddaw cais wedi'i gwblhau, cynllun o'r safle i'w gymeradwyo a phrotocol bioddiogelwch i law, bydd Swyddog Arweiniol Milfeddygol Cymru yn trefnu i un o Filfeddygon APHA archwilio'r safle arfaethedig. Rhoddir sylw arbennig i fioddiogelwch a'r cyfleusterau profi.
3. Ar ôl cael adroddiad archwilio boddhaol gan Filfeddyg APHA, bydd Swyddog Arweiniol Milfeddygol Cymru yn dychwelyd y ffurflen, a fydd yn cynnwys yr amodau cymeradwyo parhaus, ynghyd â'r gymeradwyaeth angenrheidiol.
4. Bydd gan yr AFU ei CPH ei hun (neu CPH ar wahân os yw'n rhan o ddaliad), caiff Hysbysiad Gwahardd Symud Anifeiliaid Buchol (TB02) ei gyflwyno iddi a chaiff copi ei anfon i'r Awdurdod Lleol perthnasol.
5. Yn ogystal â phrofion, caiff y safle, cofnodion symud a thaenu slyri/tail ac ati eu harchwilio o bryd i'w gilydd (gall yr archwiliadau fod yn ddirybudd) ac o leiaf unwaith y flwyddyn gan APHA. Bydd methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau a nodir yn y ffurflen gymeradwyo (gan gynnwys methu â phrofi'r gwartheg yn yr uned ar yr adeg a ragnodir a methu â rhoi gwybod am achosion o symud o fewn yr amserlen a ragnodir) yn arwain at dynnu'r gymeradwyaeth yn ôl. Os bydd hyn yn digwydd, bydd cyfyngiadau symud TB02 yn parhau i fod mewn grym nes y bydd yr uned yn cael ei diboblogi a'i glanhau a'i diheintio'n drwyadl, gydag APHA yn cynnal archwiliad boddhaol o'r gwaith glanhau a diheintio cyn y gellir sicrhau statws Heb TB Swyddogol (OTF).
6. Mae AFUs yn fentrau masnachol a'u perchenogion/gweithredwyr sydd yn y sefyllfa orau i hyrwyddo eu gweithgareddau masnachol. Eu cyfrifoldeb nhw yw trafod telerau unrhyw werthiant cytundebol ar wahân. Pan gaiff daliad ei gymeradwyo'n AFU, dylid annog y perchenogion i gofrestru eu diddordeb â sefydliadau ffermio lleol a hysbysebu ar y we, yn y wasg ffermio ac ati. Fodd bynnag, nid rôl APHA yw rhoi cyhoeddusrwydd i AFU na rhannu ei manylion â ffermwyr y mae cyfyngiadau TB yn effeithio arnynt. Cyfrifoldeb rhanddeiliaid y diwydiant yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w haelodau am argaeledd AFUs ar gyfer gwartheg dan gyfyngiadau TB. Bydd APHA yn rhestru'r holl safleoedd cymeradwy ar GOV.UK: https://www.gov.uk/government/publications/finishing-units-for-cattle-approved-premises/approved-finishing-units-england-and-wales

ac mae AFUs cymeradwy wedi'u cynnwys yn ibTB yn: ibTB – Mapio TB buchol yng Nghymru a Lloegr

# Profion TB ar unedau pesgi cymeradwy

1. Caiff gwartheg yn yr AFU eu profi bob chwe mis.
2. Yn y prawf TB bob chwe mis, dim ond gwartheg 180 diwrnod oed a hŷn a gaiff eu profi'n rheolaidd mewn AFUs. Gall APHA ei gwneud yn ofynnol i loi o dan 180 diwrnod oed gael eu profi os nodir risg benodol yn y grŵp oedran hwn.
3. Os bydd profion 30 diwrnod neu fwy yn hwyr, caiff unrhyw drwyddedau cyffredinol eu dirymu ac mae'n bosibl y caiff y gymeradwyaeth fel AFU ei dirymu hefyd.
4. Os na chydymffurfiwyd ag amodau cymeradwy yn archwiliad diwethaf APHA a bod y ceidwad wedi cael gwybod am hyn, yna bydd yn ofynnol i'r holl wartheg cymwys 42 diwrnod a hŷn gael prawf cyn symud clir ymhen 90 diwrnod o symud i AFU/AFUE yng Nghymru/Lloegr, neu i Arwerthiant Arbennig TB, ar draul y gweithredwr, oni chaiff ei gwblhau fel rhan o brawf buches a ariennir gan y llywodraeth. Ni fydd angen prawf cyn symud os yw'r arolygiad diweddaraf yn dangos cydymffurfiaeth.

# Camau gweithredu os bydd achos o TB mewn uned besgi gymeradwy

1. Caiff gweithdrefnau safonol APHA ar gyfer iawndal, gwaredu adweithyddion a chynnal archwiliadau post-mortem arnynt eu dilyn.
2. Ni fydd datgelu adweithyddion nac achos mewn lladd-dy yn golygu y bydd yn rhaid cynnal profion cyfnod byr.
3. Os rhoddir gwybod am achos lladd-dy, efallai y bydd angen cynnal prawf gwirio ar unwaith ar yr holl wartheg o dan ddehongliad llym. Os bydd samplau o achos y lladd-dy yn rhoi adwaith cadwynol polymerasau (PCR) neu ganlyniad meithriniad positif, bydd angen cynnal prawf TBU 90 diwrnod ar yr holl wartheg o dan ddehongliad llym.
4. Bydd angen cynnal prawf TBU 90 diwrnod o dan ddehongliad llym ar ôl i adweithyddion gael eu hadnabod. Adweithyddion amhendant mewn prawf rheolaidd oni bai bod y gweithredwr yn gofyn am drwydded benodol i'w hanfon i gael eu lladd cyn yr ail brawf.
5. Os bydd y prawf yn glir, caiff profion eu cynnal bob chwe mis unwaith eto. Fodd bynnag, os na fydd y prawf yn glir, mae'n bosibl y bydd angen cynnal rhagor o brofion TBU 90 diwrnod
6. Efallai y bydd y perchennog/gweithredwr am ddiboblogi'r AFU yn hytrach na chynnal rhaglen brofi. Yn yr achosion hyn, rhaid glanhau a diheintio'r AFU fel y nodir yn amodau'r Hysbysiad yn ei Gwneud yn Ofynnol i Lanhau a Diheintio (BT05). Caiff hyn ei archwilio cyn y caiff ailstocio ei gymeradwyo.
7. Gall Swyddog Arweiniol Milfeddygol Cymru atal gwartheg rhag cael eu symud i'r AFU os caiff achos difrifol o TB ei ddatgelu yn yr uned gyfan neu ran ohoni.

# Camau gweithredu ar y fferm wreiddiol pan fydd anifeiliaid wedi cael eu hanfon i AFU

Dylai achosion lladd-dy o AFUs gael eu holrhain i'r fferm wreiddiol fel mater o drefn a bydd angen ystyried unrhyw oblygiadau o ran rheoli'r achos yn y fferm wreiddiol. Os bydd y fuches wreiddiol wedi cael dau brawf 60 diwrnod clir ers i'r gwartheg symud, ni fyddai angen cymryd camau pellach fel arfer, ond gall APHA ystyried yr angen i wneud profion gwirio pellach yn ofynnol.

# Safle gwreiddiol yng nghymru yn unig

Ac eithrio lle mai'r unig anifeiliaid a anfonir i'r AFU yw'r rhai o dan 90 diwrnod oed pan gânt eu symud, dim ond pan ddisgwylir i'r fuches wreiddiol gael dau brawf cyfnod byr pellach y caniateir symud gwartheg dan gyfyngiadau TB i AFU.

# Adennill statws heb TB swyddogol (OTF) (codi cyfyngiadau TB02 ar yr AFU)

Os bydd y gweithredwr am i'r uned adennill statws OTF, bydd y canlynol yn angenrheidiol cyn y gellir codi'r cyfyngiadau:

- rhaid iddo roi gwybod i Swyddog Arweiniol Milfeddygol Cymru am y bwriad i adennill statws OTF
- rhaid i'r uned roi'r gorau i dderbyn gwartheg
- bydd y gofyniad i gynnal profion olrhain yn ailddechrau o'r adeg y bydd AFU yn ceisio adennill statws OTF
- rhaid i'r holl wartheg yn yr uned gael eu hanfon i gael eu lladd pan fydd yn amser gwneud hynny
- ar ôl diboblogi'r uned, rhaid ei glanhau a'i diheintio yn unol â'r amodau ar gefn yr Hysbysiad yn ei Gwneud yn Ofynnol i Lanhau a Diheintio (BT05):

  https://www.gov.uk/government/publications/tb-restricted-cattle-declare-cleansing-and-disinfection-in-england

- rhaid trin tail a slyri fel y'i rhagnodir yn yr amodau a restrir uchod
- rhaid i APHA gadarnhau bod y gwaith glanhau a diheintio yn foddhaol ar ôl ei archwilio.

(h) Hawlfraint y Goron 2021

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Diogelu Data:
I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.